



Eifion: Wel? **S2**
Ynyr: Wel be? **S3**
Eifion: Be ti'n feddwl o dy gatre' am y nos? **S4**
Ynyr: Sai'n siwr. Be ti'n feddwl?
Eifion: Gwd, mae fe'n neis on' 'dyw e?
Ynyr: *(Yn amlwg, heb ei argyhoeddi)* Neis iawn.
Mae hi'n oer iawn 'ma ond dyw hi?
Eifion: Os wyt ti'n meddwl bod hyn yn oer, aros nes y bydd hi wedi tywyllu. Bydd hi fel cysgu mewn rhewgell.
Ynyr: *(Wedi synnu)* Wir?
Eifion: Beth arall ti'n ddisgwyl mewn hen blasty?
(Y ddau yn gosod eu bagiau i lawr)
Ynyr: Eifion... wyt ti'n meddwl bod yna...ti'n gw bod...YSBRYDION 'ma?
Eifion: *(Gan chwerthin am ben Ynyr)* So ti'n ofni ysbrydion, wyt ti?
Ynyr: *(yn ceisio bod yn ddewr)* Nadw.. Pam - wyt ti?
Eifion: Y fi? Ha! Sai'n credu yn y fath beth heb sôn am 'u hofni nhw! Ysbrydion wir!

(Mae Eifion yn chwerthin yn uchel, ac mae Ynyr yn ymuno â'r chwerthin er ei fod yn amlwg yn dal i fod yn amheus. Clywir lleisiau merched. Mae Eifion yn dal sylw Ynyr ac yn amneidio tuag at y drws. Mae'r ddau 'n cuddio y tu ôl i gadeiriau gan aros yn llonydd a dal eu hanadl)

(Clywir swm Siân yn tagu ac yn dod yn nes. Mae Siân yn ymddangos ar ei phedwar, yn fyr o wynt ac wedi llwyr ymlâdd)

Siân: Ond dwi wedi ymlâdd. Dwi'n meddwl bod da fi dwtsh o asthma...
Mair: Siân dere.
Siân: Ocê, ocê dwi'n dod...
Mair: O'r diwedd! Ar ôl tri... un...dau...
Siân: Ar y tri neu ar ôl y tri ni'n cerdded i mewn?
Mair: Ar ôl tri wedes i ondyfe?
Siân: Felly, ti'n cyfri un, dau, tri, ac wedyn byddwn ni'n cerdded trwy'r drws ife?
Mair: Siân! O! *(yn ddiamynedd)* Jyst un...dau...tri- cerdded, iawn. Ni'n cerdded ar y tri ocê?
Siân: Ocê.
Mair: Un...dau...tri.

(Mae'r ddwy yn cymryd ychydig gamau i mewn i'r ystafell, ac yna'n aros yn llonydd gan edrych o'u cwmpas. Wrth i'r ddwy astudio'r ystafell, mae Eifion ac Ynyr yn sleifio y tu ôl iddyn nhw. Mae Eifion yn cyfri i dri â'i fysedd fel arwydd i Ynyr weiddi)

Rhan 2

(Mae'r ddwy yn sgrechian men hysteria, ac Ynyr ac Eifion yn chwervthin am eu pennau)

Eifion: Shw ma'i ferched?

Mair: *(Yn flin)* Eifion Bont-y-Bugail ac Ynyr Jones, doedd hwnna ddim yn ddoniol.

(Y bechgyn yn parhau i chwervthin.)

Mair: Os na fwy di cyrraedd te?

Eifion: Na. Dim ond nid dau.

Siân: Wel, mae 'na bedwar ohono ni te.

(Pawb yn edrych ar ei gilydd)

Ynyr: O'n i'n gwybod mai fel yma y bydde hi. Hen syniad twp oedd dod yma i aros...

Siân: Y tyle'na sydd ar fai, gei di weld.

Mair: Be?!

Siân: Y tyle!

Eifion: Pa dyle?

Siân: Yr Everest na ni di gorfod dringo i gyrredd 'ma.

Ynyr: Fflop. Na beth yw heno. Un fflop mawr. Sai'n aros 'ma un funed mwy. Dwi'n mynd.

Mair: I le?

Ynyr: Adref!

(Mae Ynyr yn mynd ati i gasglu ei sach cysgu a'i fag er mwyn gadael y plasdy)

Rhan 3

Mair: Paid â mynd Ynyr...

Eifion: *(Yn ceisio codi ofn ar Eifion)* Bydde fi byth yn mynd ar ben fy hunan ar hyd y ffordd 'na yn y tywyllwch rhag ofn i mi gyfarfod ag ysbryd yr hen wraig oedd yn arfer byw 'ma.

Ynyr: Pa wraig?

Eifion: Chi di clywed yr hanes do fe?

Pawb: Naddo...

Eifion: Wel, un diwrnod ath y wraig yn sâl iawn ac a'th 'i gŵr hi i nôl y meddyg. Ond dda'th ei gŵr hi byth yn ôl. Fe dorrodd y wraig 'i chalon a bu farw yma yn y plasdy.

Siân: O! am stori drist, on tyfe?

Mair: O jiw, jiw,! A ble'n union bu farw'r hen wraig?

Eifion: *(Mae'n dawel am ychydig eiliadau, wrth iddo gymryd anadl ddofn, ac adeiladu tensiwn yn y distawrwydd, cyn bloeddio)*

FAN HYN!!!!

(Mae'r tri yn neidio ac yn sgrechian mewn braw. Mae Eifion yn amlwg yn falch fod ei dric wedi gweithio, ac yn chwervthin dros bob man.)

[Cerddoriaeth addas i gloi]